Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 16.05.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn.

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow.

# DIGWYDDIAD: Diwrnod Busnes Gwynedd, 22 Mai 2023

Bydd Diwrnod Busnes Gwynedd yn gyfle gwych i fusnesau yng Ngwynedd ddod at ei gilydd i gyfarfod, dysgu a rhannu a datblygu syniadau a strategaethau newydd. Bydd y digwyddiad hybrid hwn yn cael ei gynnal ar 22 Mai 2023 – wyneb yn wyneb ym Mhant Du, Penygroes, LL54 6HE, neu ar-lein drwy Zoom. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/DiwrnodBusnesGwynedd2023

# CYFLE: Digwyddiad Cwrdd a'r Prynwr Cymdeithas Tai Adra, Mai 23 2023

Mae Cymdeithas Tai Adra yn galw ar bob masnach leol i fynychu digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr. Bydd cynrychiolwyr o Adra, Wynne Construction, Read Construction, Novus Property Solutions, Bell Group a Gareth Morris Construction yn bresennol. Cynhelir y digwyddiad ym Bwyd Da ar Stryd Fawr, Bangor ddydd Mawrth, 23 Mai rhwng 8.30am a 11.30am. I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru, defnyddiwch y ddolen ganlynol:

https://www.adra.co.uk/yn-galw-ar-grefftwyr-lleol/

# YMGYRCH: Wythnos Twristiaeth Cymru 2023

Yn cychwyn Mai 15, Mae Wythnos Twristiaeth Cymru yn gyfle i fusnesau godi ymwybyddiaeth o'r sector ac arddangos ansawdd yr hyn sydd ar gael i dwristiaid o'r DU a thwristiaid rhyngwladol. Eleni y thema yw Atebion Cynaliadwy; Arferion a Menter. Am rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.wta.org.uk/wales-tourism-week.html

# YMGYNGHORIAD: Diwygio gyfraith cyflogaeth yr UE

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion ar gyfer meysydd allweddol o gyfraith cyflogaeth yr UE y mae'r Adran Busnes a Masnach yn gyfrifol amdanynt. Yn agored tan Gorffennaf 7fed, mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar dri maes o gyfraith cyflogaeth yr UE a allai elwa o ddiwygio:

- Gofynion cadw cofnodion o dan y rheoliadau oriau gwaith
- Symleiddio cyfrifiadau gwyliau blynyddol a thâl gwyliau yn y rheoliadau oriau gwaith

- Gofynion ymgynghori o dan y rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE)

Defnyddiwch y ddolen ganlynol i ymateb:
https://bit.ly/employmentlawreforms

## NEWYDDION: Asiantaeth Safonau Bwyd yn lansio hwb ar lein i fusnesau bwyd

Mae hwb ar-lein newydd a lansiwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn dwyn ynghyd ganllawiau ar sut i sefydlu busnes bwyd, sut i gyflawni sgôr hylendid bwyd da a rheoli alergenau i gadw cwsmeriaid yn ddiogel.
Defnyddiwch y ddolen ganlynol i cael mynediad i'r hwb:

https://www.food.gov.uk/cy/yma-i-helpu

## GWOBRAU: Ceisiadau Gwobrau Prentisiaethau Cymru nawr ar agor

Mae'r ceisiadau ar gyfer y Gwobrau Prentisiaethau Cymru nawr ar agor. Mae'r Gwobrau'n gyfle i unigolion a sefydliadau gael eu cydnabod a'u gwobrwyo am eu hymroddiad, eu gwaith caled a'u llwyddiant yn rhaglenni Llywodraeth Cymru ym maes Cyflogadwyedd a Phrentisiaethau. Am fwy o wybodaeth ac i gwneud cais, defnyddiwch yr ddolen hon:

https://www.llyw.cymru/gwobrau-prentisiaethau-cymru

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/cy
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru